# Wylfa Decommissioning Site Report

## Site Stakeholder Group Meeting
## 11 February 2021


## Stuart Law
## Site Director




## Site Director’s Summary (October 2020 – January 2021)

We have come through this difficult period and were glad to see the end of 2020 as I’m sure many of you were. Throughout the pandemic the site team has shown the resilience and dedication which I personally believe has been matched by the companies commitment.

The site has remained open and operational since the return to work in September and I am pleased to report that despite the challenges the virus presents we have succeeded in delivering work for the NDA and the UK taxpayer.

There is hope that we may be able to meet in person at the Autumn SSG which is a very welcome prospect.

## Covid-19

It became mandatory to wear face coverings when in transit to all site communal areas on 4 November.

There have been a handful of positive cases within the workforce that were transmitted in the community not on site.

Lateral flow testing trials have successfully completed at Dungeness, Harwell and Hinkley Point and will be rolled out to all sites under the BEIS testing programme that supports critical national infrastructure. This will enable us to upload test results directly into the public health and local authority Test & Trace platforms.

The introduction of these weekly tests is intended to identify people who are infectious with Covid-19 but are showing no symptoms and are therefore not aware. Volunteers are being recruited to support the programme which is expected to start in February. They will be trained using NHS methodology and arrangements. Test swabs will be taken by the individual being tested, not the volunteers.

## Site progress

A significant milestone was reached in September as a contract with Scottish Power Energy Networks was agreed for the electrical overlay connection. This will change the way electrical power is distributed to the site and is a key enabler to support future decommissioning work such as demolishing the turbine hall.




The first shipment of radioactive waste since the operational pause left site in September. It contained just under five tonnes of metallic waste that was generated from a number of maintenance activities, waste clearance projects and the dry store cell four recovery work. The shipment was consigned to Cyclife for recycling.



Redundant sea water pipe sections that were first used in 2008 as a backup supply during the replacement of a section of the sea water cooling ring main have been removed using a mechanical grab and burning equipment.

The 43.5 tonne steel consignment was sent to North Wales supplier Lelo Metals for recycling.

The site's four part compliance maintenance schedule was implemented in October which aligns Wylfa to the other Magnox sites and has removed thousands of activities that are no longer required.

The waste operations team safely completed the task of retrieving 69,000 litres of effluent that originated from the active incinerator building floor drains and the incinerator exhaust scrubber wash drain. The liquid from two active incinerator effluent tanks has been pumped into 69 intermediate bulk containers and sent for disposal via an off-site incinerator.





The intermediate level waste characterisation project has progressed significantly with over 200 samples taken from the burst can detection system and samples completed in the auxiliary gas system.  These have been packaged and sent to a laboratory for analysis.  The project's current focus is the spent fuel flask handling facility, where specialist tooling is being designed and commissioned for retrieving samples from this radiation controlled area.



Burst can detection compressor sample point

The chiller units from 16 cold junction cubicles located in each reactor have been drained of oil, cleaned out and removed for off-site disposal as hazardous waste. The redundant cold junction cubicles contain hundreds of thermocouple inputs, which would have provided temperature information from all aspects of the plant during generation and defuelling phases of life.




We have also isolated the $CO_2$ plant in preparation for demolition. This will create a footprint to support other decommissioning activities.

Our first Environment, Health, Safety, Security and Quality review for two years was held in November which went really well. The Magnox Executive in attendance noted: strong support for the Covid-19 arrangements and outstanding TRIR/DACR safety performance. They were impressed with the way the Construction Office was set-up and running, good control of lifting equipment and the maintenance optimisation project. They also noted the workforce's pride in the site.

We hosted a very successful virtual site tour of Trawsfynydd and Wylfa sites in December which was attended by NDA CEO David Peattie, Dr Ros Rivaz, NDA Chair and Magnox CEO Gwen Parry Jones. The meeting gave each site's Lead Team the opportunity to present our achievements, challenges and the way forward. They then met Trade Union representatives and health, environment, safety advisory committee representatives from both sites, followed by a group of apprentices from Trawsfynydd before we all came back together for feedback.

As from 1 February 2021, the Facilities Management services for Magnox sites will change from Interserve to Mitie. I'd like to thank Interserve for their many years of support at Wylfa and Maentwrog.

## Safety performance

Total recorded incident rate (TRIR): 0.00
Days away case rate (DACR): 0.00
No of days since a lost time accident: 926 (27.01.21)

## People

There are currently 155 Magnox employees and two agency supplied workers at Wylfa. The Magnox Support Office staff who have a desk on site continue to work from home on an ongoing basis.

Flu vaccinations, administered by BUPA, were made available to the workforce in November.

Mental health is a key priority and part of our organisational strategy. The company is taking part in Mind's workplace mental health index this year. The workforce will be invited to take part in a wellbeing survey, the results of which will highlight how well the mental health policies, procedures and initiatives such as mental health first aiders are working and how they can be improved.

**Maentwrog Operations**

Rainfall between 1 March and 31 December was 1084 mm.

Renewable electricity generation during the same period was 41.0 gigawatt hours compared to a target of 26 gigawatt hours.

**For more information and the latest news from Wylfa, visit:**

https://www.gov.uk/government/collections/our-sites
https://twitter.com/magnoxsites
https://www.linkedin.com/company/magnox
https://www.flickr.com/photos/magnoxsites

# Adroddiad Datgomisiynu Safle Wylfa

## Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid y Safle
## 11 Chwefror 2021

## Stuart Law
## Cyfarwyddwr y Safle



## Crynodeb Cyfarwyddwr y Safle (Hydref 2020 – Ionawr 2021)

Rydym wedi dod drwy’r cyfnod anodd hwn ac rydym yn falch o weld cefn ar 2020 fel rwy’n siŵr yr oedd nifer ohonoch chi. Drwy gydol y pandemig, mae tîm y safle wedi dangos gwydnwch ac ymroddiad ac yn bersonol rwy’n credu fod ymrwymiad y cwmni wedi adlewyrchu hynny hefyd.

Mae’r safle wedi parhau ar agor ac yn weithredol ers dychwelyd i’r gwaith ym mis Medi ac rwy’n falch o nodi ein bod wedi llwyddo i gyflawni gwaith ar gyfer yr NDA a threthdalwr y DU serch yr heriau a achoswyd gan y feirws.

Mae gobaith y gallem gwrdd wyneb yn wyneb yn SSG yr Hydref, a fydd yn cael ei groesawu’n fawr rwy’n siŵr.

## Covid-19

Daeth yn orfodol i wisgo gorchuddion wyneb wrth fynd o amgylch holl ardaloedd cymunol y safle ar 4 Tachwedd.

Bu llond llaw o achosion positif ymhlith y gweithlu, a drosglwyddwyd yn y gymuned, yn hytrach nag ar y safle.

Cwblhawyd treialon profion llif unffordd yn llwyddiannus yn Dungeness, Harwell a Hinkley Point a bydd yn cael ei gyflwyno ym mhob safle dan y rhaglen brofi BEIS sy’n cefnogi isadeiledd cenedlaethol critigol. Bydd hyn yn ein galluogi i lwytho canlyniadau profion i fyny’n uniongyrchol i blatfformau Profi ac Olrhain iechyd y cyhoedd a’r awdurdod lleol.

Y nod wrth gyflwyno’r profion wythnosol hyn yw canfod pobl sy’n heintus gyda Covid-19 ond nad ydynt yn dangos unrhyw symptomau ac nad ydynt felly’n ymwybodol o hynny. Mae gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio i gefnogi’r rhaglen, ac mae disgwyl iddi ddechrau ym mis Chwefror. Byddant yn cael eu hyfforddi gan ddefnyddio methodoleg a threfniadau’r GIG. Yr unigolyn sy’n cael ei brofi fydd yn defnyddio’r swabiau profi ei hun, ac nid y gwirfoddolwyr.

## Cynnydd y safle

Cyrhaeddwyd carreg filltir nodedig ym mis Medi gan y cytunwyd ar gontract gyda Scottish Power Energy Networks ar gyfer y cyswllt troshaen trydanol. Bydd hyn yn newid y ffordd y dosberthir pŵer trydanol i’r safle ac mae’n alluogwr allweddol i gynorthwyo gwaith digomisiynu yn y dyfodol, megis dymchwel y neuadd dyrbin.




Gadawodd y llwyth cyntaf o wastraff ymbelydrol ers yr oedi gweithredol y safle ym mis Medi.

Roedd yn cynnwys ychydig llai na phum tunnell o wastraff metelig a gynhyrchwyd o nifer o weithrediadau cynnal a chadw, prosiectau clirio gwastraff a’r gwaith o adfer cell storio sych rhif pedwar. Cludwyd y llwyth i Cyclife er mwyn ei ailgylchu.



Codwyd yr adrannau segur o bibell ddŵr môr a ddefnyddiwyd am y tro cyntaf yn 2008 fel cyflenwad wrth gefn yn ystod y gwaith o ddisodli adran o'r brif bibell oeri â dŵr môr gylchol. Defnyddiwyd crafanc fecanyddol a chyfarpar llosgi i wneud hyn.

Anfonwyd y llwyth dur 43.5 tunnell i'r cyflenwr Lelo Metals yng ngogledd Cymru i'w ailgylchu.


Cyflwynwyd atodlen gynnal a chadw cydymffurfiad pedair rhan ym mis Hydref sy'n alinio Wylfa â safleoedd eraill Magnox, ac mae wedi dileu miloedd o weithrediadau nad ydynt yn ofynnol bellach.

Cwblhaodd y tîm gweithrediadau gwastraff y dasg o godi 69,000 litr o elifion a oedd yn deillio o ddraeniau llawr adeilad y llosgydd gweithredol a draen golchi sgwriwr pibell wacau'r llosgydd yn ddiogel. Pwmpiwyd yr hylif o ddau danc elifion llosgyddion gweithredol i 69 o gynwysyddion swmp canolraddol a'u hanfon i'w gwaredu mewn llosgydd oddi ar y safle.






Mae'r prosiect pennu nodweddion gwastraff lefel canolraddol wedi datblygu'n sylweddol gyda dros 200 o samplau'n cael eu cymryd o system ganfod y can ffrwydro a samplau wedi eu cwblhau yn y system nwy ategol. Mae'r rhain wedi cael eu pecynnu a'u hanfon i'r labordy i'w dadansoddi. Mae'r prosiect ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar gyfleuster trin y fflasg tanwydd a ddefnyddiwyd, lle mae offer arbenigol yn cael ei ddylunio a'i gomisiynu er mwyn casglu samplau o'r ardal hon a reolir am ymbelydredd.


Man samplu cywasgwr canfod y can ffrwydro

Draeniwyd olew o unedau oeri 16 ciwbicl cyffordd oer a leolir ym mhob adweithydd, cawsant eu glanhau a'u symud i'w gwaredu oddi ar y safle fel gwastraff peryglus.  Mae'r ciwbiclau cyffordd oer segur yn cynnwys cannoedd o fewnbynnau cysylltu thermol, a fyddai wedi darparu gwybodaeth tymheredd o bob agwedd ar yr atomfa yn ystod cyfnodau o'i hoes pan oedd yn cynhyrchu ac wrth dynnu tanwydd.




Rydym hefyd wedi ynysu'r gwaith CO2 er mwyn paratoi i'w ddymchwel.  Bydd hyn yn creu ôl troed i gefnogi gweithrediadau datgomisiynu eraill.

Cynhaliwyd ein hadolygiad Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch, Sicrwydd ac Ansawdd cyntaf ers dwy flynedd ym mis Tachwedd, a aeth yn dda iawn.  Nododd y Swyddog Gweithredol a oedd yn bresennol: roedd cefnogaeth gref ar gyfer y trefniadau Covid-19 a pherfformiad diogelwch TRIR/DACR rhagorol. Roeddent wedi cael eu plesio gyda'r ffordd y sefydlwyd ac y gweithredir y Swyddfa Adeiladu, roedd rheolaeth dda dros offer codi a'r prosiect optimeiddio cynnal a chadw.  Mi wnaethant hefyd nodi balchder y gweithlu yn y safle.

Cynhaliwyd taith rithwir lwyddiannus iawn o amgylch safleoedd Trawsfynydd a Wylfa ym mis Rhagfyr ac roedd David Peattie, Prif Weithredwr NDA, Dr Ros Rivaz, Cadeirydd yr NDA a Gwen Parry Jones, Prif Weithredwr Magnox yn bresennol. Rhoddodd y cyfarfod gyfle i Dîm Arweiniol pob safle i gyflwyno ein llwyddiannau, heriau a'r ffordd ymlaen.  Yna, mi wnaethant gwrdd â chynrychiolwyr Undebau Llafur a chynrychiolwyr o bwyllgor ymgynghorol iechyd, yr amgylchedd a diogelwch o'r ddau safle, ac yna grŵp o brentisiaid o Drawsfynydd cyn i ni i gyd ddod yn ôl at ein gilydd am adborth.

O 1 Chwefror 2021 ymlaen, bydd gwasanaethau Rheoli Cyfleusterau safleoedd Magnox yn newid o Interserve i Mitie. Hoffwn ddiolch i Interserve am eu cefnogaeth ers sawl blwyddyn yn Wylfa a Maentwrog.

## Perfformiad Diogelwch

Cyfradd lawn y digwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.00
Cyfradd achosion dyddiau i ffwrdd (DACR): 0.00
Nifer y dyddiau ers damwain lle collwyd amser: 926 (27.01.21)

## Pobl

Ar hyn o bryd mae 155 o weithwyr Magnox a dau weithiwr a gyflenwyd drwy asiantaeth yn Wylfa. Mae staff Swyddfa Cefnogi Magnox sydd â desgiau ar y safle yn parhau i weithio gartref.

Darparwyd brechiadau ffliw, a weinyddwyd gan BUPA, i'r gweithlu ym mis Tachwedd.

Mae iechyd meddwl yn flaenoriaeth allweddol ac yn rhan o strategaeth ein sefydliad. Mae'r cwmni'n cymryd rhan ym mynegai iechyd meddwl y gweithlu Mind eleni. Gwahoddir y gweithlu i gymryd rhan mewn arolwg llesiant, a bydd canlyniadau hynny'n amlygu pa mor dda mae'r polisïau, y gweithdrefnau a'r mentrau iechyd meddwl yn gweithio a sut y gellir eu gwella.

**Gweithrediadau Maentwrog**

Y glawiad rhwng 1 Mawrth a 31 Rhagfyr oedd 1084 mm.

Cynhyrchiant trydan adnewyddadwy yn ystod yr un cyfnod oedd 41.0 awr gigawatt o'i gymharu â tharged o 26 awr gigawatt.

**Am fwy o wybodaeth a'r newyddion diweddaraf o'r Wylfa, ewch i:**

https://www.gov.uk/government/collections/our-sites
https://twitter.com/magnoxsites
https://www.linkedin.com/company/magnox
https://www.flickr.com/photos/magnoxsites